**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd** **NWR 03-01(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 6 Gorffennaf 2001 |
| **Amser:** | 10.00am hyd 1.00pm |
| **Lleoliad:** | Neuadd y Dref, y Rhyl |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Ann Jones, Cadeirydd | Dyffryn Clwyd |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Alison Halford | Delyn |
| Gareth Jones | Conwy |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru | Gorllewin Caerdydd |
| *Swyddogion:* | |
| John Bader | Cyfarwyddwr Tai |
| Brendon Hilbourne | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad ac ymddiheuriadau** (10.00am hyd 10.05am)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd i Neuadd y Dref y Rhyl am ei lletygarwch. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dafydd Elis Thomas, John Marek, Tom Middlehurst, Rod Richards a Karen Sinclair.

**Eitem 2: Cofnodion ac adrodd yn ôl o'r cyfarfod blaenorol -** NWR 02-01(min); NWR 03-01(p1)

2.1 Nododd y pwyllgor yr adroddiad yn ôl o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai a chymeradwyodd y cofnodion.

**Eitem 3: Adroddiad blynyddol y Pwyllgor 2000-01 -** NWR 03-01(p2)

3.1 Cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad blynyddol drafft.

**Eitem 4: Tai**

4.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i John Bader a Brendon Hilbourne i'r cyfarfod. Rhoddodd John Bader cyflwyniad byr ar y prif faterion tai i Gymru a'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Dai Genedlaethol. Cliciwch yma i weld y cyflwyniad.

4.2 Amlinellodd Brendon Hilbourne y prif faterion yn ymwneud â'r sector rhentu preifat. Mae copi o'i gyflwyniad i'w weld yn atodiad 1.

4.3 Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau gan aelodau'r pwyllgor.

4.4 Roedd tai amlbreswyliaeth a bod o fewn cyrraedd i'r prif gyflenwad nwy yn faterion o bwys yng Ngogledd Cymru ond y flaenoriaeth uchaf oedd amddiffyn rhag llifogydd.

4.5 Roedd angen buddsoddiad sylweddol i wella cyflwr y stoc tai. Roedd yn bwysig bod data cynhwysfawr ar gael am gyflwr y stoc a dylid cynnal arolwg cenedlaethol. Dylid hefyd cynnal arolwg cenedlaethol i'r angen am dai er mwyn cydgysylltu strategaethau tai, strategaethau datblygu a strategaethau eraill. A oedd gan y Cynulliad ddata digonol i seilio ei bolisïau arno?

- Dywedodd John Bader fod yr arolwg diwethaf o gyflwr tai wedi ei gynnal yn 1997. Roedd arolwg newydd cynhwysfawr wedi'i gynllunio ar gyfer 2002-2003. Roedd angen dal y ddysgl yn wastad rhwng sicrhau data o ansawdd dda ar lefel genedlaethol i seilio polisïau tai'r Cynulliad arno a'r data mwy manwl y mae ar yr awdurdodau lleol ei angen. Roedd yn rhaid felly i'r Cynulliad weithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol i sicrhau cysondeb wrth gasglu data.

4.6 Roedd yn bwysig bod y Strategaeth Dai Genedlaethol a gwaith adfywio cymunedol yn cael eu cyd-drefnu.

- Dywedodd John Bader fod yna gyd-drefnu agos rhwng y Strategaeth Dai Genedlaethol a'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Roedd hefyd yn bwysig cyd-drefnu polisïau tai gyda pholisïau cymdeithasol ac economaidd eraill.

4.7 Mewn ardaloedd gwledig, gwnâi prisiau tai hi'n anodd i bobl leol fynd i mewn i'r farchnad dai. Faint o bobl oedd wedi manteisio ar y cynllun daliadaeth hyblyg, ‘Homebuy’?

- Dywedodd John Bader fod £1.3 miliwn o'r £1.5 miliwn a oedd ar gael wedi'i ddefnyddio yn 2001-2002 i gyflenwi 140 o gartrefi. Byddai penderfyniadau yngln â ffurf y cynllun i'r dyfodol, a sut y byddai'n gweithredu mewn ardaloedd gwledig, yn dibynnu ar yr adborth a dderbynnir oddi wrth awdurdodau lleol.

4.8 Roedd lefelau perchen-breswylwyr yn uchel yng Nghymru ond nid oedd digon o arian yn cael ei roi tuag at grantiau adnewyddu i ateb y galw. Awgrymwyd y dylid targedu pobl iau a'r rheini sy'n byw mewn tai hn. Sut gellid cwtogi'r rhestrau aros am grantiau adnewyddu?

- Dywedodd Brendon Hilbourne fod awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r arian a dderbyniant gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer grantiau adnewyddu yn unol â'r blaenoriaethau y penderfynir arnynt yn lleol. Roedd y Cynulliad hefyd wedi rhyddhau £50 miliwn o gyllid cyfalaf eleni i gefnogi cynlluniau strategol gan awdurdodau lleol. Byddai newidiadau arfaethedig i'r system adnewyddu yn annog dull gweithredu mwy hyblyg a strategol gan awdurdodau lleol.

4.9 Roedd cyfran y bobl oedrannus yng Nghymru yn cynyddu ac roedd angen cymorth arnynt i allu aros yn eu cartrefi eu hunain os ydynt yn dewis gwneud hynny. Darparai Gofal a Thrwsio wasanaeth gwerthfawr ond roedd y costau gweinyddol yn uchel. Awgrymwyd y gallai profiad y sector preifat helpu i ostwng costau gan alluogi rhagor i gael ei wario ar waith atgyweirio.

- Dywedodd John Bader y byddid yn adolygu'r cynllun newydd Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref ar ôl ei flwyddyn gyntaf o weithredu, ac y byddai hynny'n cynnwys gwerthuso'r costau gweinyddol er mwyn sicrhau eu bod yn cynrychioli gwerth am yr arian. Roedd trefn gyllido Gofal a Thrwsio yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

4.10 Os oeddid i fynd i'r afael yn effeithiol â phroblemau tai yng Nghymru, roedd yn rhaid i Brif Weinidog Cymru ddwyn pwysau ar y llywodraeth ganolog i ddatganoli gweithrediad y system budd-daliadau tai i'r Cynulliad.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod gweinyddu budd-daliadau tai yn cynnwys elfennau sy'n perthyn i awdurdodau lleol a'r Cynulliad Cenedlaethol ond mai'r llywodraeth ganolog sy'n cyllido'r system. Nid oedd wedi ei argyhoeddi bod angen datganoli hynny i'r Cynulliad.

4.11 Roedd yna gefnogaeth gref ar draws y pleidiau yn y Cynulliad i gyflwyno system drwyddedu ar gyfer tai amlbreswyliaeth a'r sector rhentu preifat yn gyffredinol.

- Cytunai Prif Weinidog Cymru fod system drwyddedu i dai amlbreswyliaeth yn bwysig ond teimlai fod delio â materion penodol, megis offer nwy peryglus mewn llety ar rent, y gellid ymdrin â nhw heb newid y gyfraith, yn flaenoriaeth uwch.

4.12 Pa gynnydd oedd wedi ei wneud gan y pedwar grp gorchwyl amlasiantaeth a sefydlwyd i helpu i ddatblygu strategaeth dai genedlaethol?

- Canmolodd John Bader waith y grwpiau gorchwyl yn datblygu'r strategaeth ddrafft a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori. Byddai'r Fforwm Ymgynghorol Cenedlaethol ar Dai â rhan yn y gwaith o'i hadolygu a'i datblygu yn barhaus. Byddid yn trafod y Strategaeth Dai Genedlaethol yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ddydd Iau 12 Gorffennaf a byddai copïau ar gael o'r Gyfarwyddiaeth Dai ac o wefan y Cynulliad.

4.13 Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd wedyn. Dywedodd y câi'r pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod eu crynhoi mewn llythyr i'w anfon at y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ac at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

4.14 Gofynnodd Arthur Holland Williams o Flaenau Ffestiniog pa bryd y câi gwelliannau eu cyflwyno i'r

ddeddfwriaeth bresennol i alluogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael â landlordiaid sector preifat sy'n gosod tai anaddas. Roedd yn siomedig nad oedd unrhyw gynigion yn araith y Frenhines i gyflwyno trwyddedu.

4.15 Dywedodd Mike Espley, Cymdeithas Landlordiaid Preifat Gogledd Cymru, y byddai system drwyddedu o gymorth i landlordiaid preifat da. Roedd y Gymdeithas yn gweithio i newid agwedd tenantiaid ac argraffiadau'r cyhoedd o'r sector rhentu preifat.

4.16 Holodd John Patterson, Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych, beth oedd barn y Cynulliad ar drosglwyddo stoc. Dylai'r Cynulliad fod yn dadlau o blaid caniatáu i awdurdodau lleol fenthyca arian er mwyn gwneud gwaith atgyweirio yn hytrach na gorfod trosglwyddo eu stoc i landlord arall.

- Dywedodd John Bader fod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi adolygu'r polisi trosglwyddo stoc ac mai ei brif argymhelliad oedd y dylai'r Cynulliad geisio newid y rheolau sy'n llywodraethu hawl awdurdodau lleol i fenthyca. Roedd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ystyried argymhellion y pwyllgor.

4.17 Dywedodd Paul Diggory, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, y dylai awdurdodau lleol orfod darparu tai sy'n cyrraedd safonau tebyg i'r rheini sy'n ofynnol gan gymdeithasau tai. Cytunai y dylai'r rheolau o ran y gofynion benthyca gael eu newid i ganiatáu i awdurdodau lleol wneud gwaith atgyweirio ar eu stoc ac y dylai'r gyllideb budd-daliadau tai gael ei throsglwyddo i'r Cynulliad.

4.18 Dywedodd Sian Foulkes o Gaernarfon, a oedd yn anabl, ei bod wedi gwneud cais i'w hawdurdod lleol am gael ei throsglwyddo i lety mwy addas ond y dywedwyd wrthi nad oedd dim ar gael. Gofynnodd pwy oedd yn gyfrifol.

- Gan mai mater personol oedd hwn, awgrymodd y Cadeirydd ei bod yn ei godi gydag un o Aelodau'r Cynulliad ar ddiwedd y sesiwn.

4.19 Gweithiai Simon Walkling i elusen sy'n datblygu cynlluniau bond er mwyn darparu ernes i denantiaid yn y sector rhentu preifat. Teimlai y dylai'r Cynulliad ddarparu'r adnoddau i sefydlu cynllun gwarant bond.

- Dywedodd John Bader fod darparu cynlluniau gwarant bond ym mhob rhan o Gymru yn amcan y rhoddir blaenoriaeth iddo gan y Cynulliad ac yr oeddid yn ystyried sut y gellid cyflawni hyn yn effeithiol.

4.20 Dywedodd Diane Hannan fod problemau cymdeithasol yn cael eu hachosi gan bobl o ardaloedd trefol yn symud i lety yn y sector rhentu preifat yng Ngogledd Cymru. Roedd yn rhaid i'r awdurdodau lleol dalu eu budd-dâl tai. Roedd angen rhoi sylw i'r broblem ac awgrymodd na ddylid caniatáu i bobl symud i ardal a hawlio budd-dâl tai onid oedd ganddynt gysylltiad lleol megis gwaith neu gwlwm teuluol.

4.21 Dywedodd Paul McHugh, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, fod digartrefedd yn cyfleu mwy na dim ond bod heb le i fyw ynddo. Roedd gan y rhan fwyaf o bobl ddigartref broblemau eraill yn ymwneud â chyffuriau, alcohol neu iechyd meddwl. Roedd angen i ystod o asiantaethau a ffynonellau cyllido weithredu mewn modd difwlch i ymdrin â'r broblem.

4.22 Dywedodd Pat Howell, Cymdeithas Trigolion Buxton Court, fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem ar ystadau awdurdodau lleol ac ystadau preifat. Dylai'r Cynulliad roi sylw i'r ffaith ei bod yn anodd iawn cael gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol.

4.23 Dywedodd y Cynghorydd Peter Douglas, Cyngor Sir Ddinbych, fod yn rhaid buddsoddi mewn addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol os yw'r cylch amddifadedd sy'n rhedeg drwy deuluoedd i gael ei dorri.

4.24 Dywedodd Mr Robinson nad oedd yn fodlon ag ansawdd gwaith a wnaed ar ei gartref ac a gyllidwyd gan grant adnewyddu oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych. Dylai gwaith a wneir gan awdurdodau lleol fod o safon uchel gyda gwarant addas ynghlwm ag ef.

- Awgrymodd y Cadeirydd ei fod yn codi'r achos gyda'i Aelod lleol yn y Cynulliad. Dywedodd John Bader mai mater i'r awdurdodau lleol unigol yw ansawdd gwaith adnewyddu.

4.25 Dywedodd cynghorydd o Gyngor Sir Ddinbych fod yn rhaid i awdurdodau lleol gynnig yr opsiwn i denantiaid o drosglwyddo eu cartrefi i landlordiaid eraill gan na chaniateir iddynt fenthyca arian i wneud gwaith atgyweirio. O dan amgylchiadau o'r fath nid oedd yn syndod y byddai tenantiaid yn pleidleisio o blaid trosglwyddo'r stoc.

4.26 Dywedodd Barry Ecclestone, Unsain, Conwy, y dylid rhoi rhagor o arian i awdurdodau lleol i ganiatáu iddynt wneud gwaith atgyweirio ar eu stoc. Awgrymodd y gellid defnyddio derbyniadau o werthu tai cyngor i gyllido'r gwaith atgyweirio.

- Dywedodd John Bader y byddai'r Trysorlys yn gostwng y swm arian a ddyrannir i Gymru o'r un swm pe bai'r Cynulliad yn newid y rheolau i ganiatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio eu derbyniadau ar waith atgyweirio. Ni cheid dim budd ariannol o gwbl o hynny felly.

4.27 Croesawai Helen Snedker, Cymorth i Fenywod, Cymru, y Strategaeth Dai Genedlaethol ond roedd yn siomedig nad oedd unrhyw gyfeiriad at anghenion menywod a phlant sy'n cael eu cam-drin. Gofynnodd a oedd bwriad i'w cynnwys a sut y câi eu hanghenion eu cydnabod.

4.28 Dywedodd Bryn Williams, Age Concern, Dinbych, y dylid cynnwys anghenion pobl mewn cartrefi nyrsio preifat yn y Strategaeth Dai Genedlaethol ac y dylai fod yna gyswllt rhwng y Strategaeth a strategaethau ar gyfer yr henoed.

4.29 Roedd Mark Saddler, SCOVO, yn siomedig nad oedd sôn am anghenion pobl ag anawsterau dysgu yn y Strategaeth Dai Genedlaethol ddrafft a gofynnodd am sicrwydd y byddid yn rhoi sylw i'w hanghenion tai.

4.30 Gofynnodd Steve Bennett, Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru, am sicrwydd y byddai'r Strategaeth Dai Genedlaethol yn rhoi sylw i faterion cydraddoldeb hiliol.

4.31 Dywedodd John Bader ei bod yn anodd cwrdd â disgwyliadau pob grp diddordeb a rhoi iddynt y sylw penodol yr oeddynt yn ei ddymuno yn y Strategaeth. Byddai'r Strategaeth yn ddogfen sy'n esblygu, a châi ei newid a'i diweddaru. Byddai'n ymdrin â materion a fyddai'n cynnwys trais yn y cartref, yr henoed, pobl ag anawsterau dysgu ac ethnigrwydd. Byddid yn cynnal astudiaeth i dai ar gyfer yr henoed. Byddai'n ystyried pa

mor effeithiol y mae'r stoc tai presennol yn cael ei ddefnyddio a byddai'n cynnwys cartrefi gofal preswyl.

**Eitem 5: Prif Weinidog Cymru** (12.05pm hyd 12.55pm)

5.1 Roedd Prif Weinidog Cymru yn falch bod cynifer wedi dod i'r cyfarfod a dywedodd fod hynny'n dangos mor bwysig yw'r pwyllgorau rhanbarth er mwyn ymestyn democratiaeth yng Nghymru.

5.2 Cododd Eric Moor, Cadeirydd Cymdeithas Tenantiaid Wrecsam, y mater yngln ag annhegwch y system Budd-dâl Tai, sy'n golygu bod yn rhaid i denantiaid cyngor noddi ad-daliadau ond nad yw tenantiaid cymdeithasau tai yn gorfod gwneud hynny.

- Derbyniai Prif Weinidog Cymru fod yna anghysondeb a gofynnodd i Mr Moor ysgrifennu ato gyda'r manylion.

5.3 Gofynnodd Alison Hay, Gwasanaeth Canoli Sir Ddinbych, a oedd Prif Weinidog Cymru yn argymell canoli fel rhan o bolisi cymdeithasol.

- Dywedodd y Prif Weinidog ei fod o blaid canoli ym mhob math o anghydfod a'i fod yn cefnogi datblygu cynlluniau o'r fath.

5.4 Dywedodd John Gillibrand, y Cyngor Awtistiaeth Cenedlaethol, fod y pwyllgorau rhanbarth mewn sefyllfa dda i ddatblygu strategaethau rhanbarthol o ran gwasanaethau i bobl awtistig.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod y Cynulliad wedi darparu cyllid i ailadeiladu a moderneiddio cyfleusterau yn Ysgol Plas Bron Dyffryn a chanmolodd y gwasanaethau yr oedd yn eu darparu.

5.5 Dywedodd Arnold Pennant o Fodfari, Dinbych fod clwy'r traed a'r genau wedi cael effaith sylweddol ar dwristiaeth yng nghefn gwlad. Roedd yna ansicrwydd yn yr ardal yngln â pham yr oedd profion gwaed yn cael eu cynnal.

- Cytunai Prif Weinidog Cymru fod twristiaeth yng nghefn gwlad wedi dioddef yn drwm oherwydd clwy'r traed a'r genau. Dywedodd fod y clwy yn anodd i'w ganfod mewn defaid a bod yn rhaid cynnal profion gwaed i ddangos nad oes unrhyw haint ar ôl yn y ddiadell.

5.6 Cyfeiriodd Gwyndaf Hughes o Ruthun at gynlluniau'r llywodraeth i ddiwygio budd-dâl analluogrwydd. Byddai'r newidiadau yn cael mwy o effaith yng Nghymru gan fod mwy o bobl yn ôl canran yn hawlio budd-dâl analluogrwydd nag yn Lloegr.

- Cytunai Prif Weinidog Cymru fod cyfran uwch o bobl yng Nghymru ar fudd-dâl analluogrwydd. Dywedodd ei bod yn haws symud pobl oddi ar fudd-dâl analluogrwydd ac i mewn i waith mewn ardaloedd o ddiweithdra isel, megis de ddwyrain Lloegr, gan fod dewis ehangach o swyddi ar gael. Roedd yn ymwybodol iawn o arwyddocâd unrhyw newidiadau o ystyried y sefyllfa yng Nghymru.

5.7 Dywedodd Huw Edwards, Cyngor Tref Caernarfon, nad oedd gan awdurdodau lleol ddigon o arian i adnewyddu eu stoc tai. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith fod yna ddiffyg swyddi o hyd yng ngogledd orllewin Cymru, er bod yr A55 wedi'i chwblhau.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru ei fod wedi agor estyniad ffatri yn Llanberis, enghraifft a oedd yn dod â 30 o swyddi da i'r ardal. Roedd yr A55 yn ei gwneud yn haws i bobl gymudo i'r gwaith ond nid oedd pawb am wneud hynny ac roedd yn bwysig denu cyflogaeth newydd i'r ardal.

5.8 Dywedodd y Cynghorydd Klaus Armstrong-Braun, Cyngor Sir y Fflint, y dylai'r Cynulliad ymchwilio i'w fethiant ef a Chyngor Cefn Gwlad Cymru i weithredu'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewropeaidd.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod dosbarthu safleoedd er mwyn eu dynodi yn dasg enfawr a bod yn rhaid ei gwneud yn gywir neu gallai Cymru golli cyllid Amcan 1 gan fod Ewrop yn ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol ac amodau dynodiadau cyn rhoi grantiau datblygu economaidd. Gwahoddodd Mr Armstrong-Braun i ysgrifennu ato gyda manylion ei gyn.

5.9 Roedd David Barratt o Wrecsam yn pryderu y byddai pobl o'r tu draw i'r ffin yn Lloegr yn manteisio ar y ddarpariaeth presgripsiynau am ddim i bobl o dan 25 yng Nghymru. Teimlai mai dim ond pobl sy'n byw yng Nghymru ddylai dderbyn presgripsiynau am ddim.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod datganoli yn golygu ei bod yn anochel y byddai gwahaniaethau yn codi ar draws y ffin. Deallai y byddai costau gweinyddol atal pobl o Loegr rhag manteisio ar bresgripsiynau am ddim yng Nghymru yn fwy na'r arian y gellid ei arbed.

5.10 Cwynai Lazlow Kovac fod y dreth gyngor yn Sir Ddinbych wedi cynyddu'n sylweddol eleni ond nad oedd y gwasanaethau a ddarperir wedi gwella.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod yn rhaid, o bryd i'w gilydd, adolygu'r fformiwla a ddefnyddir i ddyrannu arian i awdurdodau lleol. Pan ddigwyddai hynny, roedd yn anochel y byddai rhai ar eu hennill ac eraill ar eu colled yn y broses. Cymerwyd camau i liniaru effaith y newidiadau.

5.11 Roedd y Cynghorydd Radcliffe o Landudno yn pryderu nad oedd pobl leol yn gallu fforddio prynu t yn eu cymunedau gan fod mewnfudwyr yn gallu talu prisiau uwch. Câi hyn effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg. Roedd camau'n cael eu cymryd yn Ardal y Llynnoedd i helpu pobl leol a dylid gwneud yr un peth yng Nghymru.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod y broblem hon yn tueddu i symud mewn cylchoedd, gan ddilyn y farchnad dai yn ne-ddwyrain Lloegr, sy'n uchel ar hyn o bryd. Câi'r broblem ei gwneud yn waeth yng ngogledd-orllewin Cymru am fod yr economi yno wedi ei seilio ar gyflogau cymharol isel. Ni theimlai ei bod yn briodol ymyrryd â dewisiadau unigol pobl leol yng ngogledd-orllewin Cymru yngln ag i bwy i werthu eu heiddo, ond gellid helpu pobl leol nad oeddent yn gallu prynu tai yn lleol mewn ffyrdd eraill, megis hybu cyflenwad tai cymdeithasol lleol.

5.12 Dywedodd Mike Espley, Cymdeithas Landlordiaid Preifat Gogledd Cymru, nad oedd awdurdodau lleol yn

llwyddo i weinyddu budd-dâl tai yn effeithlon nac yn gywir. O ganlyniad, roedd landlordiaid preifat yn colli arian.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru y gellid codi achosion unigol gyda'r Ombwdsmon, os nad oedd modd datrys cwynion yn lleol.

5.13 Dywedodd Meirick Davies, Cyngor Sir Ddinbych, ei bod yn anodd teithio ar y ffyrdd rhwng gogledd a de Cymru.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod yna densiwn rhwng gwella'r cysylltiadau ffordd rhwng y gogledd a'r de a gwarchod yr amgylchedd. Roedd y Cynulliad wedi canolbwyntio ar wella'r gwasanaethau rheilffordd ond roedd hefyd wedi comisiynu astudiaeth gan Babbtie and Co., peirianegwyr ymgynghorol, ar gysylltiadau ffordd rhwng y de a’r gogledd. Byddai’r astudiaeth wedi'i chwblhau yn fuan.

5.14 Dywedodd Tom Price, Unsain Wrecsam, y byddai'r Ddeddf Safonau Gofal yn peryglu darpariaeth gofal preswyl awdurdodau lleol, a gofynnodd sut y gellid cynnal y ddarpariaeth.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i awdurdodau lleol barhau i fod â rhan yn y gwaith o ddarparu gofal preswyl. Gan na fyddai'r Ddeddf yn dod i rym yn llawn tan 2007, roedd yna amser i roi sylw i'r mater.

5.15 Holodd y Cynghorydd Andrew Bailey, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, pam fod cyrff anifeiliaid yn dal i gael eu gwaredu mewn safleoedd claddu sbwriel er nad oedd yna unrhyw achosion o glwy'r traed a'r genau yn yr ardal.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod safleoedd claddu sbwriel yn cael eu defnyddio i waredu anifeiliaid a laddir o dan y Cynllun Difa am Resymau Lles sy'n cael ei weithredu gan y Bwrdd Ymyrraeth. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy'n gyfrifol am y cynllun hwnnw. Anifeiliaid glân oedd y rhain na ellid eu symud yn ôl i'r fferm gartref neu nad oedd marchnad ar eu cyfer. Roedd yn debygol y byddai yna broblem yn yr hydref gydag yn ysgafn sydd fel arfer yn cael eu hallforio ac nad oes yna farchnad ar eu cyfer yn y DU. Efallai y byddai'n rhaid gwaredu rhai o'r rhain hefyd mewn safleoedd claddu sbwriel.

5.16 Roedd Dianne Thomas, Cymdeithas Trigolion Eastside, Caergybi, yn bryderus bod traffig sy’n gadael porthladd Caergybi yn ei gwneud hi'n beryglus croesi'r ffordd gerllaw'r allanfa o'r porthladd. Dywedodd y dylid sefydlu mesurau dros dro hyd nes y bydd cyswllt ffordd pwrpasol wedi'i gwblhau.

5.17 Dywedodd Meirion Davies, Menter Iaith, fod angen mwy o wybodaeth am yr iaith Gymraeg ar bobl sy'n symud i ardal Gymraeg ei hiaith, gan gynnwys sut ac ymhle y gallent ddysgu'r iaith. Roedd Menter Iaith wedi cynhyrchu taflenni gyda'r wybodaeth hon ac awgrymodd y dylai'r rhain fod ar gael i awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r sector rhentu preifat.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru ei fod yn falch o weld gwybodaeth yn cael ei chynnig fel mater o ymarfer da. Penderfyniad i landlordiaid unigol oedd pa un i'w defnyddio ai peidio.

5.18 Dywedodd David St George, Celtic Dimensions, y dylai'r pwyllgorau pwnc gwrdd yn y rhanbarth a chynnal sesiynau holi ac ateb.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru mai mater i'r Llywydd a Phanel y Cadeiryddion Pwyllgorau oedd hwn ac y byddai'n codi'r mater gyda nhw. Cyn belled ag y gwyddai, roedd y pwyllgorau pwnc eisoes yn cwrdd ym mhob rhan o Gymru.

5.19 Diolchodd y Cadeirydd i Brif Weinidog Cymru am fynychu'r cyfarfod ac ateb cwestiynau.

**Eitem 6: Ethol Cadeirydd ar gyfer 2001-02** (12.55pm hyd 1.00pm)
6.1 Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mwynhau ei blwyddyn fel Cadeirydd. Ar ddechrau'r flwyddyn yr oedd yn benderfynol i gael y cyhoedd yng Ngogledd Cymru i ennyn perthynas â'r Cynulliad. Diolchodd i'r cyhoedd am ymateb i'r her a gobeithiai y byddai'r niferoedd uchel sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn parhau.

6.2 Yna, gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau. Talodd Gareth Jones deyrnged i'r gwaith a wnaed gan Ann Jones fel Cadeirydd y pwyllgor ac enwebodd Eleanor Burnham. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill ac etholwyd Eleanor Burnham yn briodol fel y Cadeirydd newydd. Dywedodd Eleanor Burnham ei bod yn gweld y pwyllgor fel llysgennad dros y Cynulliad yng Ngogledd Cymru ac fel llysgennad dros Ogledd Cymru yng Nghaerdydd.

6.3 Dywedodd y Cadeirydd y câi'r cyfarfod nesaf ei gynnal ar 26 Hydref ac y byddai'n ystyried y strategaeth ar gyfer yr henoed. Ni wnaed penderfyniad eto yngln â'r lleoliad.

**Ysgrifenyddiaeth** **Gorffennaf 2001**

**Atodiad 1**

**Y Sector Rhentu Preifat – Tai yng Nghymru**

Mae Strategaeth Dai Genedlaethol ddrafft y Cynulliad Cenedlaethol yn amlinellu ei gynigion ar gyfer y sector rhentu preifat yng Nghymru.

Mae'r Cynulliad yn cydnabod y rôl bwysig a chwaraeir gan y sector rhentu preifat yn diwallu gofynion tai y rheini sy'n methu neu sy'n dewis peidio â phrynu eu cartrefi eu hunain. Mae wedi ei gwneud yn glir ei fod am weld sector rhentu preifat iach ac egnïol, wedi'i reoli'n dda, yn datblygu gyda chartrefi mewn cyflwr da.

Er nad yw'r sector rhentu preifat ond i gyfrif am ran weddol fach o holl stoc tai Cymru [tua 9%] canfu Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn 1998 fod y problemau gyda thai anaddas ar eu gwaethaf o ran canran mewn tai sy'n cael eu rhentu'n breifat [tua 18% .]

Mae llawer o'r problemau o ran cyflwr gwael a rheolaeth wael wedi'u crynhoi'n aml ymysg Tai Amlbreswyliaeth.

Er bod gan y Cynulliad gynigion i fynd i'r afael â phroblemau yn y sector rhentu preifat mae'n bwysig cofio bod gan awdurdodau lleol bwerau gorfodi sylweddol yn barod ac y gallant roi grantiau.

Gall hyn helpu i ddal y ddysgl yn wastad gyda chymhellion i landlordiaid i wella cyflwr cartrefi.

Gall awdurdodau weithio hefyd mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Yn aml byddir yn trosi tai amlbreswyliaeth yn llety hunangynhaliol. Mae yna enghreifftiau da o'r patrwm gweithredu hwn yma yn y Rhyl.

Gall awdurdodau lleol hefyd gyflwyno cynlluniau cofrestru tai amlbreswyliaeth, sy'n ymestyn eu pwerau i fynnu gwell safonau o ran cyflwr a rheolaeth. Mae'r Cynulliad yn annog awdurdodau lleol i ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â phroblemau yn y sector rhentu preifat gan ddefnyddio'r cynlluniau cofrestru hyn.

Mae'r Cynulliad wedi rhoi adnoddau o bron i £3.4 miliwn i awdurdodau lleol eleni [2001-2002] yn benodol i gefnogi strategaethau i fynd i'r afael â phroblemau yn y sector rhentu preifat. Mae hyn yn ychwanegol at yr adnoddau y gall awdurdodau lleol eu hunain eu defnyddio i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

Er bod gan awdurdodau lleol eisoes bwerau helaeth i fynd i'r afael â phroblemau yn y sector rhentu preifat, mae'r Cynulliad yn cydnabod bod angen newidiadau.

Mae'r Cynulliad felly wedi gwneud ymrwymiad i gyflwyno trwyddedu.

Dylai cynllun trwyddedu cenedlaethol ar gyfer tai amlbreswyliaeth ddarparu amodau byw diogel, derbyniol heb achosi gostyngiad yn y cyflenwad o lety preifat ar rent.

Bydd yn rhaid wrth ddeddfwriaeth sylfaenol yn effeithio ar Gymru a Lloegr er mwyn cyflwyno cynllun trwyddedu a bydd yr amseru yn dibynnu ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth.

Er y bydd y ddeddfwriaeth drwyddedu ar sail genedlaethol i'r DU, bydd y Cynulliad yn gallu defnyddio'i bwerau drwy is-ddeddfwriaeth i roi'r trefniadau newydd ar waith. Bydd hynny'n sicrhau y byddant yn sensitif i anghenion Cymru ac yn mynd i'r afael â'r materion neilltuol sydd o bwys i awdurdodau lleol, tenantiaid a landlordiaid cyfrifol.

Mae gan y Cynulliad gynigion hefyd ar gyfer trwyddedu detholus o fewn rhannau eraill o'r sector rhentu preifat.

Ni cheir problemau cyffredinol mewn llawer o'r rhan hon o'r sector rhentu preifat ac mae angen dewis a dethol wrth fynd i'r afael ag unrhyw broblemau. Er enghraifft, gellid canolbwyntio ar ardaloedd daearyddol neu sectorau neilltuol o'r farchnad.

Mae'r Cynulliad am gymryd i ystyriaeth farn y rheini y mae'n debygol y bydd cwmpas a gweithrediad trwyddedu dethol o'r fath yn effeithio arnynt, i sicrhau bod y trefniadau yn addas a phriodol i fynd i'r afael â'r

ystyriaethau neilltuol a wynebir yng Nghymru.

Maes o law felly bydd y Cynulliad yn ymgynghori ynghylch trefniadau trwyddedu detholus dewisol.

I grynhoi:

- mae gan awdurdodau lleol eisoes bwerau helaeth i fynd i'r afael â phroblemau yn y sector rhentu preifat;
- ond mae'r Cynulliad yn cydnabod bod angen newidiadau ac mae'n cynnig ystod o fesurau newydd i gryfhau a gwella'r pwerau presennol;
- mae amseriad y newidiadau hyn yn ansicr a bydd yn dibynnu ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth.